O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 6 (Cy. 2)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Wedi'i wneud	*3 Ionawr 2012*
Yn dod i rym	*8 Ionawr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd Caer - Bangor (A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Ionawr 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2. Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnod o 28 niwrnod ar y mwyaf o 00:01 o'r gloch ar bob un o'r dyddiadau a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y darn(au) o'r gefnffordd" *("the length(s) of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 i 4 o'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar hyd un ai'r gerbytffordd tua'r dwyrain neu'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. —(1) Tra bo cerbydau yn cael eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 8, ddim yn cael eu gwahardd rhag symud yn y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:-

(i) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain;

(ii) mynd mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bo cerbydau yn cael eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 8, ddim yn cael eu gwahardd rhag symud yn y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:

(i) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darn o'r gefnffordd mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin;

(ii) mynd mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n fwy na 3.20 metr o led fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.